RHIFYN
ISSUE
39
30.05.21

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

07.06.21 - Dychwelyd ar gyfer yr hanner tymor olaf
Children return for the final half term
28.06.21 - Diwrnod HMS - staff yn unig i fynychu'r ysgol
INSET Day - staff only to attend school
21.06.21 - Noson Agored ar-lein 1 a 2
22.06.21 *Online Open Evening 1 and 2*
28.06.21 - Diwrnod HMS - staff yn unig yn yr ysgol
INSET Day - staff only to attend
02.07.21 - Blwyddyn 6 yn ymweld ag Ysgol Llanhari
Year 6 visit Ysgol Llanhari

CROESO ATOM
WELCOME

Byddwn yn croesawu Gofalwr newydd i'r ysgol ar Fehefin 7fed. Croeso cynnes i Mr Pritchard gan obeithio y bydd yn ymgartrefu yn dda.

We shall be welcoming a new Caretaker to school on June 7th. A warm welcome to Mr Pritchard and we hope he settles in well.

LLUNIAU DOSBARTH
CLASS PHOTOGRAPHS

Bydd ffotograffydd yn ymweld â'r ysgol ar Fehefin 10fed i dynnu lluniau Dosbarth a Blwyddyn 6 fel grŵp cyfan.

Our usual photographer will visit us on June 10th to take Class photographs as well as Year 6 as a whole group.

CASGLU DATA
DATA COLLECTION

Unwaith eto, hoffem atgoffa pawb am y llythyr yma a anfonwyd at bawb fis Rhagfyr. Gofynnir i chi gwblhau'r taflenni casglu data a'u dychwelyd i: data.yggllantrisant@rctcbc.gov.uk cyn gynted ag y bo modd os gwelwch yn dda. Maent yn bwysig iawn ar gyfer rhesymau casglu data a manylion cyswllt.

Once again, we should like to remind everyone of this letter which was sent out in December. We ask that you complete the data collection form and return it to: data.yggllantrisant@rctcbc.gov.uk *as soon as possible, please. They are most important for data and contact details purposes.*

DIWEDD Y FLWYDDYN
END OF YEAR

Mae'n anodd credu mai dim ond 6 wythnos sydd ar ôl cyn Gwyliau'r Haf. Mae'r flwyddyn wedi hedfan! Diwrnod olaf y flwyddyn i'r plant fydd dydd Gwener, Gorffennaf 16eg. Gan fod y plant yn gorffen am y flwyddyn rhyw ddau ddiwrnod cyn y staff (gan fod gennym ddau ddiwrnod HMS ar ddydd Llun a dydd Mawrth, Gorffennaf 19eg a 20fed) rydym yn gobeithio na fydd nifer o blant yn cael eu casglu yn gynnar ar y dydd Gwener olaf i sicrhau fod pawb yn gallu mwynhau cwmni ei gilydd am y tro olaf eleni. Rwy'n siwr fod y dydd Llun a'r dydd Mawrth yn gyfle gwych i deuluoedd fynd ar eu gwyliau heb orfod poeni am golli ysgol a gadael yr ysgol yn gynnar i osgoi unrhyw draffig!

It's hard to believe that there are only 6 weeks left in school before the Summer Holidays. The year has flown by! The last day of the year for the children will be Friday, July 16th. Since the children are finishing school some two days early before the staff (since we have INSET Days for Monday and Tuesday July 19th and 20th) we hope that the children stay with us and are not collected early, as happens, so that they are able to enjoy their friends' company up until the last minute. I am sure that the Monday and Tuesday will be a great opportunity for families to shoot off on their Summer break without the worry of having to miss school by leaving early before the end of the day to miss any traffic!

NOSWEITHIAU AGORED
OPEN EVENINGS

Diolch yn fawr i bawb sydd wedi gwneud apwyntiad ar gyfer y ddwy noson agored a gynhelir ar Fehefin 21ain a 22ain. Mae'r system yn argoeli i fod yn dda iawn! Cofiwch fod y system gwneud apwyntiad ar agor tan 6:00 yh ar Fehefin 16eg. Gofynnir yn garedig i chi fewngofnodi hyd yn oed os nad yw'n bosibl i chi fynychu cyfarfod gan fod opsiwn ar y system i chi nodi nad ydych ar gael. Bydd hyn yn rhoi neges i'r athrawon er mwyn cysylltu â chi i drafod ymhellach.

Many thanks to all those who have already made appointments for the two open evenings scheduled for June 21st and 22nd. The system promises to be very good! Remember that the booking system is open until 6:00 pm on June 16th. You are kindly asked to log in whether you can make the evening or not as there is an option there to let the teachers know this and we can then contact you to discuss further.

www.yggllantrisant.schoolcloud.co.uk



LLWYDDIANT TU FAS I'R YSGOL
SUCCESS OUTSIDE SCHOOL

Llongyfarchiadau mawr i'r disgyblion heini hyn sydd wedi cymryd rhan mewn digwyddiad traws gwlad dros dîm Pontyclun yn ddiweddar! @Welshathletics

A big congratulations to these healthy, fit pupils who recently took part in a cross country event with the Pontyclun team! **@Welshathletics**



RHOWCH WYBOD I NI
LET US KNOW

Os oes gan eich plentyn / plant newyddion yr hoffech ei rannu gyda ni ar gyfer Llais Llantrisant, ebostiwch yr ysgol.

If your child(ren) has news you would like to share with us for Llais Llantrisant, please email the school.

ADRODD I RIENI
REPORTING TO PARENTS



Bwriedir dosbarthu adroddiadau cynnydd diwedd y flwyddyn ar ddydd Gwener, Gorffennaf 9fed. Cewch wybod bryd hynny hefyd pa aelod o staff fydd yn addysgu eich plant yn ystod 2021-2022. Fel ag y nodwyd yn Llais Llantrisant 36, bydd angen hollti rhai o'n dosbarthiadau presennol i greu'r strwythur newydd ar gyfer mis Medi gan fod mwy o blant Blwyddyn 6 yn ein gadael ni na sydd o blant Meithrin newydd yn ymuno â ni.

We intend to distribute end of year progress reports on Friday, July 9th. You will also receive notification of your child(ren)'s class teacher for 2021-2022. As mentioned in Llais Llantrisant 36, some of our current classes will be split to create the new class structures for September since there are more Year 6 children than new Nursery children joining us in September.

HMS
INSET

Mae angen i bob ysgol gymryd 6 diwrnod HMS eleni, yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, er mwyn parhau gyda'n gwaith o baratoi at Gwricwlwm i Gymru ymysg cyfleoedd hyffordi eraill. Mae eleni wedi bod yn anniben iawn! Gweler isod ein 6 diwrnod HMS hyd yn hyn.

All schools in Wales are required to take 6 INSET days this academic year, in line with Welsh Government guidelines, to continue with our work of preparing for the new Curriculum for Wales amongst other training requirements. This year has been very messy! Please see below our 6 INSET days so far.

12.04.21
04.05.21
28.05.21
28.06.21
19.07.21
20.07.21

https://bit.ly/32rctDx

Ewch i / *Remember to visit : www.ygggllantrisant.cymru*

Y GRhA
THE PTA



Diolch yn fawr iawn i bawb sydd wedi cefnogi holl waith caled y GRhA eleni. Mawr yw ein diolch, wrth gwrs, i aelodau'r pwyllgor sydd wedi gweithio'n galed tu hwnt i sicrhau llwyddiant y digwyddiadau a drefnwyd. Mae'r plant wedi bod yn ffodus iawn i gael marciau newydd ar iard chwarae y Cyfnod Sylfaen, llwyth o adnoddau chwaraeon newydd ac mae Mr Euros Jones wrthi yn archebu offer codio TGCh.

Fis Medi, ar ddechrau'r flwyddyn newydd, bydd y GRhA yn chwilio am aelodau newydd i ymuno â'r tîm gan fod nifer o wirfoddolwyr yn gorfod ffarwelio â ni oherwydd gofynion gwaith. Oes awydd gennych i ymuno â thîm o rieni ymroddgar i drefnu llu o weithgareddau ar gyfer 2021-2022? Meddyliwch amdano! Bydd y GRhA yn cysylltu â phawb trwy lythyr cyn bo hir.

Many thanks to all those who have supported the hard work of the PTA this year. A big thank you, of course, to the committee members who have gone the extra mile to ensure the events organised were a success. The children have benefitted from new yard markings on the Foundation Phase yard, a large amount of new sporting equipment and Mr Euros Jones is cureently purchasing IT coding equipment.

In September, at the start of the new academic year, the PTA will be recruiting new members to join the team since some current members have to leave the committee due to work commitments. Do you feel like joining a team of dedicated parents to organise a wealth of activities for 2021-2022? Have a think! The PTA will be in touch soon by letter.





Y CABANAU
THE PORTAKABINS





Pan fyddwn yn dychwelyd ar ôl gwyliau hanner tymor, rydym yn edrych ymlaen yn fawr iawn at gael defnyddio'r cabanau unwaith eto! Bwriedir defnyddio'r ystafell ar y chwith ar gyfer sesiynau ymyrraeth llythrennedd, rhifedd a lles ychwanegol gydag ystafell DGCh a'r cyfryngau ar y dde. Mae cynlluniau cyffrous iawn ar y gweill gan RCT i dirlunio'r tir o gwmpas y cabanau, ymestyn ein gardd bresennol a gosod dosbarth allannol. Hefyd, bydd cysgod dan do yn arwain o'r prif adeilad i amddiffyn y plant rhag y glaw!



When we return to school after the half term break, we are looking forward to being able to finally use the new portakabins! The room on the left will be using for additional literacy, numeracy and wellbeing intervention sessions with the right hand room being used as an ICT and media suite. RCT have very exciting plans afoot to landscape the grounds around the portakabins, extend our exisiting garden and to erect a wooden outdoor classroom. Also, a sheltered walkway from the main building to the cabins will be installed to keep the rain off when venturing out there!

Dilynwch ni / *Follow us : @YGGGLlantrisant*